

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX  
Dydd Iau, 26ain Hydref, 2017 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 24 Hydref 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk](mailto:servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk).

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Derbyn cofnodion o gyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 19, 21, a 28 Medi 2017.

**(Tudalennau 5 - 86)**

### **3. GWAITH CYN Y CAM CRAFFU**

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y 'Cynllun Corfforaethol – Y Ffordd Ymlaen' a 'Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Datblygu Tai Gofal Ychwanegol' yn dilyn gwaith cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**(Tudalennau 87 - 146)**

### **4. CYNIGION O RAN GRANT CYMORTH CYFLOGADWYEDD A CHRONFA ETIFEDDIAETH CYMUNEDAU YN GYNTAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – sy'n rhoi amlinelliad i'r Aelodau o'r set o gynigion mewn perthynas â'r "Grant Cymorth Cyflogadwyedd" a "Cronfa Etifeddiaeth Cymunedau yn Gyntaf", a cheisio awdurdod i gyflwyno'r cynigion hyn yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

**(Tudalennau 147 - 174)**

### **5. ADOLYGIAD O'R RHAGLEN TEULUOEDD YN GYNTAF YN RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – sy'n rhoi amlinelliad i'r Aelodau o'r canfyddiadau a'r argymhellion yn sgil adolygiad manwl o'r prosiectau presennol wedi eu comisiynu trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn unol â'r canllawiau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a rhaglen Teuluoedd Cydnerth Rhondda Cynon Taf a gafodd ei chymeradwyo yn ddiweddar.

**(Tudalennau 175 - 204)**

### **6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2016/17**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Aelodau o'r Cabinet cyn ei gyhoeddi.

**(Tudalennau 205 - 238)**

### **7. DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013: CYFLWYNO MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG I LYWODRAETH CYMRU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am y gwaith wedi ei gyflawni gan y Cyngor yn ddiweddar, i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, cyn cyflwyno map rhwydwaith integredig teithio llesol i Lywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 239 - 352)**

### **8. GORFODI PARCIO SIFIL: GWELLA'R GWASANAETH, A'I EHANGU**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Priffyrdd a Gofal y Strydoedd – sy'n ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i ystyried a gweithredu gwasanaeth gorfodi parcio sifil gwell ac estynedig yn sgil adolygiad diweddar o'r trefniadau yn y swyddfa gefn a'r gwaith gorfodi yn y rheng flaen.

**(Tudalennau 353 - 362)**

**9. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n egluro'r sefyllfa o ran adnoddau untro mae modd manteisio arnyn nhw yn sgil adolygu'r cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2016/17.

**(Tudalennau 363 - 372)**

**10. ADRODDIAD YMGYNGHORI AR Y GYLLIDEB 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr – Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am y ffordd arfaethedig o fynd ati parthed ymgysylltu ac ymgynghori â thrigolion mewn perthynas â chyllideb 2018/19.

**(Tudalennau 373 - 378)**

**11. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**12. CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL 2013/18: GWYBODAETH INTERIM**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen – sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig – sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cynnydd ynglŷn â gweithredu'r cynllun gwaith sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013/18 ar gyfer Asedau Eiddo.

**(Tudalennau 379 - 396)**

**13. MATERION BRY S**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** A Morgan (**Cadeirydd**)

M Webber  
R Bevan  
A Crimmings  
G. Hopkins  
M Norris  
(Mrs) J. Rosser  
R. Lewis  
(Mrs) C. Leyshon

**Swyddogion:**

Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Paul Mee, Cyfarwyddwr y Iechyd a Diogelwch y Cyhoed